**Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**
**Systemau a ffiniau etholiadol**
**ESB 02 Comisiwn Ffiniau i Gymru**


Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

Hastings House
Fitzalan Court
Cardiff
CF24 0BL

E-bost:
ymholiadau@ffiniau.cymru
www.comffin-cymru.gov.uk

☎ (029) 2046 4819
Ffacs/Fax (029) 2046 4823

E-mail:
enquiries@boundaries.wales
www.bcomm-wales.gov.uk


---

Dawn Bowden AC
Cadeirydd, Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pierhead Street
Caerdydd
CF99 1NA

18 Chwefror 2020

---

Annwyl Ms Bowden AC,

Diolch i chi am y gwahoddiad i ddarparu ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Ymchwiliad i'r Systemau a Ffiniau Etholiadol.

Ar ôl ystyried Cylch Gorchwyl a chylch gwaith y Comisiwn, teimlwyd mai'r mewnbwn mwyaf priodol fyddai rhoi cipolwg i'r Pwyllgor o'r meini prawf a'r prosesau sy'n gysylltiedig â chynnal Arolwg Seneddol. Cynhelir yr arolygon hyn ar sail Cymru gyfan ac o fewn un cylch arolygon.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fecanwaith deddfwriaethol ar gyfer cynnal arolwg o etholaethau'r Senedd ac mae sylwadau wedi'u cynnwys yn ymateb y Comisiwn er mwyn tynnu sylw at ystyriaethau y dylid eu rhoi wrth ddrafftio'r gyfryw ddeddfwriaeth.

Mae pob croeso i chi gysylltu â'r Comisiwn pe bai angen gwybodaeth ac eglurhad ychwanegol arnoch.

**Shereen Williams**

*Ysgrifennydd / Secretary*
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

---

**Ymchwiliad i Systemau a Ffiniau Etholiadol**
**Ymateb i Ymgynghoriad**
**Comisiwn Ffiniau i Gymru**

**Comisiwn Ffiniau i Gymru (Y Comisiwn)**

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn un o bedwar comisiwn ffiniau Seneddol, sy'n cwmpasu pob rhan o'r Deyrnas Unedig, a sefydlwyd gyntaf gan Ddeddf Tŷ'r Cyffredin (Ailddosbarthu Seddi) 1944. Mae pob Comisiwn yn annibynnol ar y Llywodraeth, ac mae pob un ohonynt wedi cwblhau chwech o arolygon cyffredinol i ffiniau etholaethau seneddol ers ei sefydlu.

2. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn gweithredu o dan Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 sy'n ei gwneud yn ofynnol, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Comisiynau Ffiniau 1992 a Deddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011, i bob un o'r pedwar Comisiwn gynnal arolwg parhaus o'r etholaethau seneddol trwy gynnal arolwg o'r holl etholaethau yn eu hardal bob pum mlynedd.

3. Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd y Comisiwn ond, trwy gonfensiwn, nid yw ef neu hi yn cyfranogi yn y broses o gynnal arolygon ffiniau na ffurfio argymhellion y Comisiwn.

4. Y Dirprwy Gadeirydd felly sy'n arwain y Comisiwn yn ei waith. Mae'n rhaid i'r Dirprwy Gadeirydd fod yn Farnwr sy'n gweithio yn yr Uchel Lys ac fe'i penodir gan yr Arglwydd Ganghellor. Cynorthwyir y Dirprwy Gadeirydd gan ddau Aelod arall, y gwneir eu penodiadau gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet.

5. Cynorthwyir y Comisiwn Ffiniau i Gymru gan ysgrifenyddiaeth fach sydd hefyd yn cynorthwyo Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC). Mae'r ysgrifenyddiaeth yn cynnwys swyddogion cyhoeddus ac fe'i harweinir gan yr Ysgrifennydd i'r Comisiwn. Mae rôl yr Ysgrifenyddiaeth yn cynnwys paratoi cynigion cychwynnol i'w hystyried gan y Comisiwn.

**Meini Prawf a Phroses Arolwg Seneddol**

6. Wrth baratoi ar gyfer yr arolwg mae'n ofynnol i'r Comisiwn gael gafael ar y data sylfaenol sydd ei angen arno. Mae'r Ddeddf yn amodi mai'r ffigurau etholiadol sydd i'w defnyddio ar gyfer arolwg yw'r rheiny sydd yn y gofrestr etholiadol ar 'ddyddiad yr arolwg'. Diffinnir dyddiad yr arolwg gan y Ddeddf, ar hyn o bryd, fel y dyddiad ddwy flynedd a deng mis cyn ei bod yn ofynnol i'r Comisiwn adrodd ar yr arolwg i'r Llywodraeth. Cyhoeddir y wybodaeth hon gan y Comisiwn.

   ***Dylai unrhyw ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r arolwg o etholaethau'r Senedd fod yn eglur o ran pa fersiwn o gofrestr etholiadol y Senedd y dylid ei defnyddio.***

7. Mae'r Ddeddf yn datgan y gall y Comisiwn ystyried 'ffiniau llywodraeth leol' wrth ddatblygu ei gynigion. Mae'r Ddeddf yn diffinio'r cyfryw ffiniau yng Nghymru fel ffiniau siroedd, bwrdeistrefi sirol, wardiau etholiadol, a chymunedau fel yr oeddent yn bodoli ar ddiwrnod cyffredin ethol cynghorwyr mwyaf diweddar cyn dyddiad yr arolwg. Mae'r Comisiwn yn defnyddio'r wardiau etholiadol fel sylfeini etholaethau ac yn creu etholaethau o wardiau etholiadol sy'n gyffiniol â'i gilydd, o gymunedau cyfan; ac, nid ydynt yn cynnwys 'rhannau datgysylltiedig', h.y. lle byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill yn mynnu croesi trwy etholaeth wahanol. Byddai'r Comisiwn yn torri wardiau etholiadol ond nid cymunedau pe bai angen, er mwyn cyflawni cwota etholiadol y DU (UKEQ) (gweler 11 ii)

8. Nid yw'r Comisiwn yn ystyried effaith ei gynigion ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol, na newidiadau i ffiniau llywodraeth leol a newidiadau i nifer etholwyr ar ôl dyddiad yr arolwg.

***Mae CFfDLC yn cynnal arolwg o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar hyn o bryd a fydd yn galluogi Gorchmynion newydd i fod mewn grym ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol 2022. Dylai unrhyw ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r arolwg o etholaethau'r Senedd egluro sylfeini ei etholaethau e.e. wardiau etholiadol, a chymunedau.***

***Dylai hefyd ystyried y bydd CFfDLC yn ailddechrau ei gylch arolygon deng mlynedd arferol ym mis Medi 2022 a dylai arolwg o etholaethau'r Senedd fod â chylch nas effeithir arno gan newidiadau i ffiniau etholiadol yng nghanol y cylch.***

9. Wrth wneud ei argymhellion, mae'r Ddeddf yn mynnu hefyd bod y Comisiwn yn pennu enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig.

   ***Mae'n bwysig sefydlu'r confensiynau a ddefnyddir wrth enwi etholaethau, yn enwedig o ran defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.***

10. Mae'n rhaid i'r Comisiwn gymhwyso darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd (yn bennaf gan Ddeddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011).

11. Dyma'r meini prawf allweddol wrth gynnal arolwg o etholaethau Seneddol:
    i) Nifer yr etholaethau
    ii) Amrediad etholiadol statudol: Mae'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd, yn pennu nifer o Reolau sy'n berthnasol i ddatblygu cynigion manwl ar gyfer etholaethau unigol. Ar wahân i bedwar eithriad penodedig (nid yw'r un ohonynt yng Nghymru) – mae'n rhaid i bob etholaeth fod â nifer etholwyr (fel ar 'ddyddiad yr arolwg' fel y diffinnir yn y Ddeddf) nad yw ddim llai na 95% a ddim uwch na 105% o 'gwota etholiadol y DU' ("UKEQ"). Yr UKEQ ar gyfer Arolwg 2018, i'r cyfanrif agosaf, oedd 74,7691. Yn gyfatebol, mae'n rhaid i bob etholaeth yng Nghymru fod â nifer etholwyr ar ddyddiad yr arolwg nad yw'n ddim llai na 71,031 a ddim mwy na 78,507 (yr amrediad etholiadol statudol).
    iii) Ffactorau statudol eraill: Ffactorau eraill y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried wrth bennu ei argymhellion ar gyfer etholaethau yn Arolwg 2018, yn benodol:
        1. Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn arbennig maint, siâp a hygyrchedd etholaeth;
        2. Ffiniau llywodraeth leol fel y'u diffiniwyd yn y Ddeddf fel yr oeddent yn bodoli ar 7 Mai 2015;
        3. Ffiniau etholaethau presennol; ac,
        4. Unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau.

12. Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, roedd yn rhaid i'r Comisiwn ddyfeisio cynigion ar gyfer 29 o etholaethau yn lle'r 40 presennol sy'n dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol. O ganlyniad, roedd gallu'r Comisiwn i ystyried y ffactorau arbennig a restrwyd yn Rheol 5 yn gyfyngedig; canfuwyd nad oedd opsiynau amgen yn ymarferol gan na ellir darparu ar eu cyfer o ran maint etholaeth neu oherwydd eu heffeithiau canlyniadol ar etholaethau arfaethedig eraill. Ymagwedd y Comisiwn oedd argymell etholaethau a oedd yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn gyffredinol.

    ***Dylai unrhyw ddeddfwriaeth yn ymwneud ag arolwg o etholaethau'r Senedd gynnwys y meini prawf allweddol ar gyfer adolygu etholaethau yn cynnwys system bleidleisio, nifer yr etholaethau ac ati. Yn benodol, gallai'r arolwg fod eisiau ystyried p'un a yw'n ddymunol sefydlu etholaethau â nifer debyg o etholwyr.***

**Cynigion ac Ymgyngoriadau**

13. Wrth ystyried y gweithdrefnau ar gyfer arolwg, mae'r Comisiwn yn ymgynghori â'r prif randdeiliaid a'r pleidiau gwleidyddol Seneddol cymwys ar faterion eang sy'n ymwneud â pholisi cyn yr arolwg.

14. Caiff proses yr arolwg ei llywio'n drwm gan ymgynghori cyhoeddus. Mae'r Comisiwn yn datblygu ac yn cyhoeddi cynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau ledled Cymru. Wedyn, cymerir cynrychiolaethau gan y cyhoedd ynglŷn â'r cynigion hyn, yn ysgrifenedig ac mewn gwrandawiadau cyhoeddus yng Nghymru.

***Dylai unrhyw ddeddfwriaeth yn ymwneud ag arolwg o etholaethau'r Senedd bennu Ymgyngoreion gorfodol.***

15. Yn wahanol i'r broses gyda'r arolygon etholiadol a gynhelir gan CFfDLC, nid yw'r Comisiwn yn cynnal cyfnod ymgynghori cychwynnol er mwyn ffurfio ei gynigion cychwynnol. Mae'r Comisiwn yn arfer ei farn ei hun ac nid yw'n ymgynghori â'r pleidiau gwleidyddol Seneddol cymwys, awdurdodau lleol nac unrhyw grwpiau neu unigolion eraill â diddordeb. Pan fydd y cynigion wedi'u cyhoeddi, mae'r gweithdrefnau statudol yn caniatáu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus o 12 wythnos lle gall pleidiau gwleidyddol ac eraill ddweud eu barn am y ffiniau arfaethedig wrth y Comisiwn.

16. Er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynigion cychwynnol, bydd y Comisiwn yn ymgymryd ag ymgyrch hysbysebu sy'n canolbwyntio ar ddod â'r cynigion, y cyfnod ymgynghori, a dyddiadau a lleoliadau gwrandawiadau cyhoeddus i sylw'r cyhoedd. Hefyd, bydd y Comisiwn yn anfon copïau o'i gynigion i'r holl bartïon â buddiant (er enghraifft, prif gynghorau ac Aelodau Seneddol). Bydd Prif Gynghorau a llyfrgell Tŷ'r Cyffredin yn derbyn copïau o fapiau manwl yr etholaethau arfaethedig hefyd.

17. Mae'r Comisiwn yn dibynnu ar gyfuniad o gynrychiolaethau ysgrifenedig a chynrychiolaethau llafar mewn gwrandawiadau cyhoeddus. Nid ymchwiliadau, cyfarfodydd cyhoeddus na dadleuon yw'r gwrandawiadau hyn, ond maent yno i roi cyfle i'r Comisiwn egluro ei gynigion cychwynnol ac i'r cyhoedd roi eu barn ar y cynigion hynny. Mae'r gwrandawiadau cyhoeddus wedi'u cyfyngu'n llym i bara ddim mwy na dau ddiwrnod yr un, a chynhelir isafswm o ddau ac uchafswm o bum gwrandawiad cyhoeddus ledled Cymru. Mae'r Comisiwn yn rhoi'r un pwys ar gynrychiolaethau a wneir yn ysgrifenedig â'r rheiny a wneir ar lafar mewn gwrandawiadau cyhoeddus.

18. Caiff y gwrandawiadau eu cadeirio gan Gomisiynydd Cynorthwyol annibynnol a ddewisir gan y Comisiwn, sy'n rheoli'r trafodion, a gall ofyn gwestiynau i unigolyn sy'n rhoi cynrychiolaeth - neu gellir gofyn cwestiynau i'r Comisiynydd Cynorthwyol. Yn gyffredinol, dylid gofyn cwestiynau drwy'r Cadeirydd a dylid gofyn am eglurhad yn hytrach na cheisio 'croesholi'r' siaradwr ynglŷn â'i farnau.

19. Cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr ymgynghoriad 12 wythnos cychwynnol ar gynigion cychwynnol y Comisiwn, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ar ei wefan yr holl gynrychiolaethau y mae wedi'u derbyn (gan gynnwys trawsgrifiadau o'r gwrandawiadau cyhoeddus). Pan fydd y cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi, ceir cyfnod statudol pellach o bedair wythnos pan fydd pobl yn gallu cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Comisiwn ar y cynrychiolaethau hynny a dderbyniodd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, er enghraifft, yn herio neu'n cefnogi honiadau a wnaed mewn cynrychiolaeth.

20. Bydd Comisiynwyr Cynorthwyol, wedi'u penodi gan y Comisiwn, yn ystyried yr holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a dderbyniwyd a chynrychiolaethau llafar a wnaed yn y gwrandawiadau cyhoeddus yn y cyfnod ymgynghori cychwynnol, a'r holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a wnaed yn yr ail gyfnod ymgynghori pedair wythnos. Yna bydd adroddiad yn cael ei baratoi ar gyfer y Comisiwn, yn crynhoi ac yn ystyried y cynrychiolaethau ac yn argymell pa un a ddylid diwygio'r cynigion cychwynnol yng ngolau'r cynrychiolaethau hynny – ac os felly, sut. Wedyn mae'r Comisiwn yn ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu p'un a ddylid gwneud diwygiadau i'w gynigion cychwynnol, ac i ba raddau.

21. Yna mae'r Comisiwn yn cyhoeddi hysbysiad ac adroddiad cynigion diwygiedig, fel y gwnaeth ar gyfer y cynigion cychwynnol. Os nad oes unrhyw ddiwygiadau, byddai adroddiad yn cael ei gyhoeddi o hyd gan roi eglurhad ynglŷn â pham na wnaed unrhyw newidiadau. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cyfnod pellach o wyth wythnos ar gyfer gwneud cynrychiolaethau ysgrifenedig i'r Comisiwn ar y cynigion diwygiedig. Nid oes unrhyw wrandawiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal yn y cam hwn; nid yw'r cyfnod pedair wythnos yn cael ei ailadrodd ychwaith ar gyfer gwneud sylwadau ar gynrychiolaethau pobl eraill.

22. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad wyth wythnos ar y cynigion diwygiedig ar yr un pryd â chyhoeddi'r adroddiad Argymhellion Terfynol.

    ***Dylai unrhyw ddeddfwriaeth yn ymwneud ag arolwg o etholaethau'r Senedd amlinellu'r broses ymgynghori h.y. esbonio os oes cyfnod ymgynghori cychwynnol, y camau ymgynghori amrywiol, y cyfnodau ymgynghori statudol, y broses ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau, defnyddio Comisiynwyr Cynorthwyol ac ati.***

23. Yn ystod cyfnod yr arolwg, mae Swyddfa'r Cabinet yn darparu'r adnoddau ariannol i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae hyn yn amrywio rhwng £1filiwn i £1.2miliwn y flwyddyn am ryw ddwy flynedd a hanner. Mae hyn yn galluogi'r Comisiwn i dalu am gostau cyhoeddusrwydd, y porth ar-lein ar gyfer cyflwyniadau, cyflogai'r Ysgrifenyddiaeth a ffioedd Comisiynwyr.

    ***Yn ei gyflwyniad bydd CFfDLC yn darparu gwybodaeth yn ymwneud â'r trefniadau gweithredol ar gyfer yr Ysgrifenyddiaeth.***